



The Royal College of Radiologists

Ffurflen cydsynio i radiotherapi ar gyfer cancer y croen

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

Manylion y claf

Enw'r claf:

Dyddiad geni:

Dynodydd unigryw'r claf:

Enw'r ysbyty:

Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd ymgynghorol cyfrifol:

Gofynion arbennig: e.e. trafnidiaeth, cyfieithydd ar y pryd, cymorth

Manylion y radiotherapi

Math o radiotherapi:

- Radiotherapi paladr allanol
 Bracitherapi i'r croen

Rhan o'r corff ac ochr:
(Ticiwch fel y bo'n briodol)

Rhan o'r corff

- Chwith
 De
 Canolog

Nod y driniaeth:

(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Gwellhaol – i roi'r cyfle gorau i chi wella'n llwyr
 Cynorthwyol – triniaeth a roddir ar ôl llawdriniaeth i leihau'r risg y bydd y cancer yn dychwelyd
 Rheoli clefyd/lliniarol – i wella eich symptomau a/neu'ch helpu i fyw yn hirach ond nid i wella eich cancer

Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.

Rhoddir manylion cyswllt yma ar gyfer unrhyw ymholiadau pellach, pryderon neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.

Sgil-ffeithiau cynnar neu dymor byr posibl

Yn dechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl cwblhau radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau radiotherapi. Mae'r amlderau yn rhai bras.

<p>Disgwyliedig 50%–100%</p>	<p><input type="checkbox"/> Blinder</p> <p><input type="checkbox"/> Llid y croen, cosi, fflawio, pilio, cennau ar y croen a chroen sych a newid yn lliw'r croen lle rhoddir triniaeth – croen gwyn/goleuach: pinc, coch, yn dywyllach na'r ardal o amgylch; croen brown: goch neu'n dywyllach na'r ardal o amgylch; croen du: yn dywyllach na'r ardal o amgylch, y lliwiau yn newid rhwng melyn/porffor/llwyd</p> <p><input type="checkbox"/> Gall y croen fagu crachen sawl gwaith</p> <p><input type="checkbox"/> Methiant y croen lle rhoddir triniaeth – er enghraifft nawsio, diferu, magu crachen a/neu waedu</p> <p><input type="checkbox"/> Gwallt yn teneuo neu golli gwallt lle rhoddir triniaeth</p>
<p>Cyffredin 10%–50%</p>	<p><input type="checkbox"/> Poen y gallai fod angen i chi gymryd poenladdwyr di-bresgripsiwn sydd ar gael o fferyllfa i'w leddfu</p>
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p>	<p><input type="checkbox"/> Haint lle rhoddir triniaeth y mae angen gwrthfotigau i'w drin</p>
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p>	
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	<p>Trwyn</p> <p><input type="checkbox"/> Poen, trwyn sych, crofennu neu waedu</p> <p>Gwefus a boch</p> <p><input type="checkbox"/> Chwyddo neu boen</p> <p>Amrannau</p> <p><input type="checkbox"/> Poen o amgylch y llygad</p> <p>Arall</p>
<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgil-ffeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>	<p>Blaenlythrennau'r claf</p>

Sgil-efeithiau hwyr neu dymor hir posibl

Gallant ddigwydd fisoedd neu flynyddoedd lawer ar ôl triniaeth radiotherapi a gallant fod yn barhaol. Mae'r amlderau yn rhai bras.

<p>Disgwyliedig 50%–100%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Newidiadau parhaol i ansawdd y croen lle rhoddir triniaeth gan gynnwys croen mwy trwchus neu deneuach <input type="checkbox"/> Newid yn lliw'r croen lle rhoddir triniaeth – yn fwy golau neu'n fwy tywyll fel arfer ar gyfer unrhyw liw croen <input type="checkbox"/> Colli gwallt yn barhaol o gwmpas lle rhoddir triniaeth – os bydd eich gwallt yn dechrau aildyfu, gallai fod yn dameidiog
<p>Cyffredin 10%–50%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Telangiectasis lle rhoddir triniaeth – pibellau gwaed bach y gellir eu gweld sy'n edrych fel marciau corynnaidd <input type="checkbox"/> Bydd y croen a gafodd ei drin yn fwy sensitif i olau a newidiadau mewn tymheredd
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Wlser cronig nad yw'n gwella – a all olygu bod angen triniaeth bellach megis gorchuddion neu lawdriniaeth
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Niwed parhaol i gartilag neu asgwrn lle rhoddir triniaeth <input type="checkbox"/> Canser gwahanol lle rhoddir triniaeth
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	<p>Trwyn</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Trwyn yn rhedeg neu drwyn sych <p>Llygaid</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Llygaid sych neu lygaid llaith a all olygu bod angen triniaeth bellach <input type="checkbox"/> Ectropion – mae'r amrant yn troi tuag allan/gostwng <input type="checkbox"/> Cataractau – cymylu yn lens y llygad, y gall fod angen llawdriniaeth i'w gywiro <p>Impiadau croen</p> <ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Mwy o risg o fethiant yr impiad – ni fydd yr impiad yn gwella <p>Arall</p>
	<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgil-efeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>

Blaenlythrennau'r claf

Enw'r claf:

Dynodydd unigryw'r claf:

Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

- Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-ffeithiau.
- Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael gan gynnwys dim triniaeth.
- Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhodddwyd taflen wybodaeth i gleifion: Do / Naddo – Manylion:

Rhodddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: Do / Naddo

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Teitl swydd

Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-ffeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
- Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth neu a all fod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddiennw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

Ticiwch os yn berthnasol

- Rwy'n cadarnhau nad oes risg y gallwn fod yn feichiog.
- Rwy'n deall na ddylwn feichiogi yn ystod y driniaeth.

Noder: os oes unrhyw bosibilrwydd eich bod yn feichiog, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ysbty/gweithiwr iechyd proffesiynol cyn cael triniaeth gan y gall hyn arwain at niwed sylweddol i ffetws yn y groth. Nid yw testosteron neu driniaethau hormon eraill yn ddulliau atal cenhedlu.

- Rwy'n deall na ddylwn geisio beichiogi na rhoi sberm na wyau yn ystod y driniaeth, a byddaf yn trafod â'm honcolegydd pryd y bydd yn ddiogel i mi geisio beichiogi ar ôl cael radiotherapi.
- Rwy'n deall petawn yn parhau i smygu, y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-ffeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.
- Nid oes gennyf reolydd calon na diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD).
- neu**
- Mae gennyf reolydd calon a/neu ddiffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD) ac mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hesbonio i mi.

Llofnod:

Enw'r claf:

Dyddiad:

Datganiad:

- cyfieithydd ar y pryd
- tyst (lle y bo'n briodol)

- Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

neu

- Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

Llofnod:

Enw:

Dyddiad:

Cadarnhad o gydsyniad y claf

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

Blaenlythrennau'r claf

Dyddiad: